



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Ysgol Reoli Caerdydd

**MSc Rheoli Marchnata Ffasiwn**

Tystysgrif Ôl-raddedig (PgCert)

Rheoli Marchnata Ffasiwn

Diploma Ôl-raddedig (PGDip)

Rheoli Marchnata Ffasiwn

2018/19

Jemma Oeppen Hill

Cyfarwyddwr y Rhaglen



## Annwyl Ffyfyrwr

Llongyfarchiadau ar ennill y graddau roedd eu hangen arnoch i gael dod i Brifysgol Metropolitan Caerdydd, a llongyfarchiadau hefyd ar ddewis Ysgol Reoli Caerdydd (CSM) i gael ymgymryd â'ch addysg farchnata strategol. Fel y dewch i wybod, mae Ysgol Reoli Caerdydd yn cynnig amgylchedd bywiog a heriol i chi ar gyfer dysgu ac astudio. Bydd yn rhoi'r wybodaeth, y sgiliau a'r cyfle i chi gael bod yn berson graddedig o'r radd flaenaf, lle y caiff ymroddiad a brwdfrydedd eu gwobrwyo.

Rydym yn gobeithio y gwnewch fwynhau eich amser gyda ni ac elwa nid yn unig o'r wybodaeth a enillwch ond hefyd y cyfeillgarwch a'r atgofion a fydd gyda chi am oes.

Rwyf yn dymuno pob lwc i chi yn eich astudiaethau.

Yr Athro David Brooksbank

Deon Ysgol Reoli Caerdydd

# FFASIWN

## CROESO

Mae'n bleser eich croesawu i Brifysgol Metropolitan Caerdydd ac i Ysgol Reoli Caerdydd (CSM). Rydym yn siŵr y bydd eich cyfnod astudio gyda ni yn ddefnyddiol ac wrth eich bodd ac y bydd y rhaglen, amgylchedd y brifysgol a gweithgareddau cysylltiedig yn ysgogol ac yn gyffrous. Rydym yn eich annog i wneud y gorau o'r cyfle hwn i ddysgu ac o'ch amser ym Met Caerdydd. Mae'r tîm MA yma i'ch helpu ac i'ch calonogi wrth i chi symud drwy eich rhaglen, ac edrychwn ymlaen i gael dod i adnabod pob un ohonoch.

Bydd y ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth allweddol i chi am y rhaglen a'r rheolau a'r gweithdrefnau gweinyddol sydd ynghlwm wrth y rhaglen. Mae'n fynegbost hefyd i wasanaethau cymorth a gweithgareddau eraill ar draws y brifysgol, gan gynnwys nifer o we-ddolenni i roi rhagor o wybodaeth. Bydd copi o'r Llawlyfr hwn ar gael hefyd drwy System Ddysgu Moodle – caiff Moodle ei esbonio yn nes ymlaen yn y llawlyfr.

Dymuniadau gorau am flwyddyn lwyddiannus a phleserus!

**Jemma Oeppen Hill**

**Cyfarwyddwr y Rhaglen – MSc Rheoli Marchnata Ffasiwn**

## 1. CALENDR ACADEMAIDD 2018/19

- Ymrestru / Cynefino:** **Wythnos yn dechrau** Dydd Llun, Hydref 1<sup>af</sup> 2018 (amserlen y gweithgareddau i ddilyn ym mis Awst)
- Semester 1:** **Wythnos yn dechrau** Dydd Llun, Hydref 8<sup>fed</sup> 2018 – Dydd Gwener, Rhagfyr 14<sup>eg</sup> (10 Wythnos). Gwyliau'r Nadolig. Semester yn ail-ddechrau yn yr wythnos yn dechrau Dydd Llun, Ionawr 7<sup>fed</sup> 2019 ac yn gorffen Dydd Gwener, Ionawr 25<sup>ain</sup> 2019
- Semester 2:** **Wythnos yn dechrau** Dydd Llun, Chwefror 4<sup>ydd</sup> 2019 – Dydd Gwener, Ebrill 5<sup>ed</sup> 2019. Gwyliau'r Pasg (3 wythnos). Semester yn ail-ddechrau yn yr wythnos yn dechrau Dydd Llun, Ebrill 29<sup>ain</sup> 2019 ac yn gorffen Dydd Gwener, Mai 17<sup>eg</sup> 2019. (Mae'n debygol y cynhelir sesiwn yn canolbwyntio ar y traethawd hir / cynllun marchnata yn yr wythnos lawn gyntaf ym Mehefin.)

**Bydd y cyfnod cynefino yn gyfle hanfodol i gwrdd â'ch cyd-fyfyrwyr ac i ddeall y gwahaniaethau allweddol rhwng disgwyliadau israddedig ac ôl-raddedig.**



## **2. NODAU'R RHAGLEN MSc**

Nod MSc Rheoli Marchnata Ffasiwn yw datblygu myfyrwyr mewn amrywiaeth o sgiliau academaidd, ymarferol, deallusol a rhesymegol a fydd yn adlewyrchu'r trylwyredd sy'n ofynnol ar Lefel 7. Dylai'r rhain ddangos bod lefel uchel o annibyniaeth a hunan-gyfeiriad gan fyfyrwr graddedig er mwyn helpu i ddangos menter a gwreiddioldeb ynghyd ag integriti a beirniadaeth foesebol wrth ddeall sut y bydd Rheoli Marchnata Ffasiwn yn gweithio yn y byd go iawn. Bydd y rhaglen yn annog y myfyrwyr i werthuso'n wrthrychol ystod y dilemau economaidd, dynol a moesegol sy'n effeithio ar yr amgylchedd marchnata ffasiwn i wella profiad y myfyrwyr a'u datblygu tuag at ofynion proffesiynol rheolwr marchnata ffasiwn.

### **2.1 NODAU ADDYSGOL Y RHAGLEN**

#### **Gwybodaeth a Dealltwriaeth**

*Wedi cwblhau'r Radd Meistr hon yn Ilwyddiannus, dylai'r myfyrwyr fod yn gallu:*

**A1** Dangos ymwybyddiaeth feirniadol o'r prif faterion, damcaniaethau a'r methodolegau sy'n allweddol ac yn ganolog i reoli marchnata ffasiwn

**A2** Dangos dealltwriaeth o rôl gweithwyr proffesiynol ffasiwn a marchnata a'r heriau y byddan nhw'n eu hwynebu o fewn cyd-destun busnes a sefydliadau ehangach a'r berthynas rhwng cysyniadau, damcaniaethau ac ymarfer rheoli marchnata ffasiwn

**A3** Dangos dealltwriaeth gynhwysfar o'r technegau sy'n berthnasol i'w hymchwil nhw eu hunain neu ysgolheictod uwch o fewn maes rheoli marchnata ffasiwn

**A4** Dangos eu bod yn deall materion allweddol a chyfredol sy'n ymwneud â rheoli sefydliadau/brandiau ffasiwn

#### **Sgiliau Gwybyddol**

*Wedi cwblhau'r Radd Meistr hon yn Ilwyddiannus, dylai'r myfyrwyr fod yn gallu:*

**B1** Gwerthuso'n feirniadol ddamcaniaethau, offer, fframwaith a modelau ym maes rheoli marchnata ffasiwn ac adfyfrio ar eu profiad dysgu a'u datblygiad personol

**B2** Dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol y wybodaeth gynradd ac eilaidd sy'n deillio o waith ymchwil a fydd yn goleuo ymchwil annibynnol a datblygiad sgiliau ymchwil

**B3** Gweithredu'n annibynnol wrth gynllunio a rheoli dysgu gydag ond rhywfaint o arweiniad yn unig

**Sgiliau Ymarferol/Proffesiynol**

*Wedi cwblhau'r Radd Meistr hon yn llwyddiannus, dylai'r myfyrwyr fod yn gallu:*

**C1** Dangos gallu i gynnal ymchwil i faterion rheoli marchnata ffasiwn a chyflwyno'r casgliadau ar lafar ac yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau

**C2** Dangos creadigrwydd, sgiliau datrys problemau a sgiliau trefnu, cynllunio a rheoli

**Sgiliau Trosglwyddadwy**

*Wedi cwblhau'r Radd Meistr hon yn llwyddiannus, dylai'r myfyrwyr fod yn gallu:*

**D1** Deall rôl y gweithiwr proffesiynol, safonau gweithio, effeithiolrwydd personol a dysgu drwy ymarfer adfyfyriol; dealltwriaeth effeithiol a thrylwyr o'r diwydiant ffasiwn, gwaith tîm, meysydd posib o ddiddordeb ac aliniad gyrfaol yn y dyfodol

**D2** Dangos sgiliau dysgu a datrys problemau annibynnol

**D3** Ymgymryd â darn estynedig o ymchwil annibynnol perthnasol



### **3. RHAGLEN ACADEMAIDD 2018/2019**

1. **Tystysgrif** = Cwblhau 60 credyd:  
Deall y Prynwyr Ffasiynau/ Understanding the Fashion Consumer (20 credyd)  
Rheoli Cynhyrchion a Phrynu Ffasiwn Strategol / Strategic Fashion Buying and Product Management (20 credyd).  
Ymchwil Marchnata Cyfoes ar gyfer Ffasiwn / Modern Marketing Research for Fashion (20 credyd).
2. **Diploma** = Cwblhau cyfnod 1 a 60 credyd ychwanegol:  
Marchnata Ffasiwn Aml-gyfrwng / Multi-channel Fashion Marketing (20 credyd),  
Rheoli Ffasiwn Rhyngwladol a Brandiau Moethus / International Fashion and Luxury Brand Management (20 credyd).  
Ymchwil Academaidd ar gyfer y Busnes Ffasiwn / Academic Research for Fashion Business (20 credyd).
3. **Gradd Meistr** = Cwblhau cyfnodau 1 a 2: a Thraethawd Hir / Cynllun Marchnata (60 credyd)  
**neu** Creadigrwydd, Marchnata a Menter (20 credyd) a Ffasiwn Rhyngwladol  
  
Prosiect Ymchwil (40 credyd)

## Myfyrwyr yn dechrau ym mis Medi

<b>Lefel 7</b>						
<b>Cod y Modiwl</b>	<b>Teitl y Modiwl</b>	<b>Semester *</b>	<b>Nifer y credydau</b>	<b>Modiwl a rennir</b>	<b>Ar gael yn Gymraeg (Ie/Na)</b>	<b>Cwrs Byr</b>
FMM 7004 CRAIDD	Multi channel Fashion Marketing	1	20	Na	Na	
FMM 7005 CRAIDD	International Fashion and Luxury Brand Management	1	20	Na	Na	
FMM7003 CRAIDD	Modern Marketing Research for Fashion	1	20	Na	Na	
<b>Cod y Modiwl</b>	<b>Teitl y Modiwl</b>	<b>Semester *</b>	<b>Nifer y credydau</b>	<b>Modiwl a rennir</b>	<b>Ar gael yn Gymraeg (Ie/Na)</b>	<b>Cwrs Byr</b>
FMM 7001 CRAIDD	Understanding the fashion consumer	2	20	Na	Na	
FMM 7002 CRAIDD	Strategic Fashion Buying and Product management	2	20	Na	Na	
FMM 7006 CRAIDD	Academic Research for Fashion Business	2	20	Na	Na	
<i>Dyfarniad – Diploma Ôl-radd</i>			120			
<b>Traethawd Hir/Prosiect</b>	<b>Teitl y Modiwl</b>	<b>Semester *</b>	<b>Nifer y credydau</b>	<b>Modiwl a rennir</b>	<b>Ar gael yn Gymraeg (Ie/Na)</b>	<b>Cwrs Byr</b>
<b>Cod y Modiwl</b>						



MSM 7032 OPSIYNOL	Creativity, Marketing and Enterprise	2/3	20	Na	Na	
FMM 7007 OPSIYNOL	International Fashion Research Project	3	40	Na	Na	
FMM 7008 OPSIYNOL	Fashion Dissertation	3	60	Na	Na	
FMM 7009 OPSIYNOL	Fashion Marketing Plan	3	60	Na	Na	
<i>Dyfarniad – Gradd Meistr</i>			180			
<b>Dyfarniad terfynol – MSc Rheoli Marchnata Ffasiwn</b>			<b>180</b>			

### **AMSERLEN Y CYFNOD CYNEFINO AR GYFER MSc RHEOLI MARCHNATA FFASIWN**

**Noder:** Cynhelir y cyfnod cynefino ar Gampws Llandaf – ystafelloedd i'w cadarnhau

#### **Dydd Llun, Hydref 1<sup>af</sup>**

- Gwybodaeth am y Rhaglen 10.00 – 12.00
- Cinio
- Gweithgareddau'r prynhawn – i'w cadarnhau 13.00 – 15.00

#### **Dydd Mawrth, Hydref 2<sup>il</sup>**

- Gweithgareddau cynefino (parhad) 10.00 – 12.00
- Cinio
- Cynefino â'r Llyfrgell a Systemau Gwybodaeth 13.00 – 15.00

#### **Dydd Mercher, Hydref 3<sup>ydd</sup>**

- Cyflwyno Moodle / gweithgareddau terfynol 10.00 – 12.00

Gwnewch yn siŵr y gallwch wirio gyda fi lle bydd angen i chi fod cyn i'r cwrs ddechrau (er y dylech dderbyn diweddariad, gan gynnwys ystafelloedd, yn hwyr ym mis Medi).

Dymuniadau gorau,

Jemma

***Jemma Oeppen Hill***

*Cyfarwyddwr y Rhaglen MSc Rheoli Marchnata Ffasiwn*

## YMRESTRU

Mae ymrestru yn broses hanfodol a fydd yn cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd ac yn rhoi mynediad i chi i systemau TG Met Caerdydd, gan gynnwys Moodle (llwyfan dysgu Met Caerdydd), talu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn. Caiff cardiau adnabod eu dosbarthu yn ystod y cyfnod cynefino.

Gallwch gwblhau'r broses Hunan-Ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd pan fyddwch wedi derbyn eich **Ebost Ymrestru**.

Pan gewch eich Ebost Ymrestru, dechreuwch y broses hunan-ymrestru drwy fynd i'r tudalen gwe [www.cardiffmet.ac.uk/enrolment](http://www.cardiffmet.ac.uk/enrolment) a dilyn y canllawiau cam-wrth-gam a fydd wedi'u darparu. Er mwyn cael mynediad i'r adran Ymrestru ar system Hunan Wasanaeth Met Caerdydd, bydd angen i chi fewngofnodi gydag enw defnyddiwr a chyfrinair. **Rhowch yr un enw defnyddiwr a'r cyfrinair i mewn ag y gwnaethoch eu defnyddio yn wreiddiol er mwyn ymgeisio.** Mae canllawiau wedi'u darparu os byddwch wedi anghofio'r enw defnyddiwr/ cyfrinair. Noder: er mwyn Hunan-Ymrestru, rhaid i'ch statws gyda Met Caerdydd fod yn **UF (Pendant Di-amod)** h.y. rhaid boddhau pob amod a rhaid bod wedi derbyn lle.

## **Dolenni Defnyddiol**

- [Y Llawlyfr Academaidd](#)
- [Llety](#)
- [Costau Ychwanegol](#)  
Costau ychwanegol yw unrhyw dreuliau gorfodol neu opsiynol, ar ben y ffioedd dysgu, y bydd angen eu talu gan fyfyrwyr iddyn nhw gael cymryd rhan lawn a chwblhau eu hastudiaethau.
- [Polisi Derbyn](#)
- [Cysgodfa Beiciau](#)  
Wedi i chi gyrraedd y campws a chasglu eich cerdyn adnabod byddwch yn gallu gofyn am fynediad i'r gwahanol gysgodfeydd beiciau o gwmpas y campysau.
- [Mapiau'r Campws a'r MetWibiwr](#)
- [Newyddion Met Caerdydd](#)
- [Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

- [Undeb Myfyrwyr Met Caerdydd](#) *gan gynnwys gwybodaeth a breichledau i'r myfyrwyr glas*
- [Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)  
Os bydd eich rhaglen yn golygu y bydd rhaid i chi ddod i gysylltiad â phlant neu â phobl ifanc neu bobl fregus, bydd rhaid i chi fod wedi cael gwiriad cofnodion troseddol yn rhan o'ch cynnig.
- [Iechyd Galwedigaethol](#)  
Er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth Iechyd a Diogelwch bresennol, bydd gofyn i bob myfyriwr a fydd yn cymryd rhaglen sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd (â chydran lleoliad clinigol yn rhan o'r rhaglen), gymryd rhan mewn asesiad Sgrinio Iechyd Galwedigaethol gorfodol. Yn ogystal, bydd yn ofynnol bod rhai cyrsiau'n cydymffurfio â rhaglen frechu ac imiwneiddio'r Adran Iechyd.
- [Cyllid Myfyrwyr](#)  
I gael gwybodaeth ar ffioedd dysgu, disgownt cyn-fyfyrwyr, benthyciadau ac ysgoloriaethau, yn ogystal â gwybodaeth gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Cynghori Ariannol y Myfyrwyr.
- [Llawlyfr y Myfyrwyr](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)  
I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni o ran eich iechyd, lles, dull byw a gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i chi er mwyn sicrhau y bydd eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosib. Bydd y Gwasanaethau hefyd yn cynnwys cynghori personol, anabledd a'r gaplaniaeth.
- [Dyddiadau'r Tymhorau](#)
- [Rhith Deithiau](#)  
Mynnwch olwg arall o gwmpas ein campws a'n cyfleusterau gyda'n rhith deithiau tywys